ADRODDIAD AR DDEDDFWRIAETH SYLFAENOL GAN BWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A CHEFN GWLAD

Mesur yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y Mesur yn ei gyfarfodydd ar 13 Gorffennaf a 22 Medi. Cafodd y Mesur ei gymeradwyo i'r Pwyllgor yn dilyn trafodaeth yn y cyfarfod llawn ar Araith y Frenhines ar 21 Mehefin.

Yn ei gyfarfod ar 13 Gorffennaf, bu i'r Pwyllgor ymgymryd â gwaith craffu manwl. Yn arbennig, yr oedd yr Aelodau yn anfodlon fod Cymal 38 yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i gyhoeddi cyfarwyddiadau i'r Cydbwyllgor Gwarchod Natur (JNCC) ynglŷn ag arfer swyddogaethau penodol, er nad oes ganddo unrhyw ddyletswydd gyfreithiol i ymgynghori â gweinyddiaethau datganoledig. Amheuodd yr Aelodau a oedd hyn yn cyd-fynd â Phapur Gwyn y Llywodraeth, *Trefn Lywodraethu Well i Gymru* ac felly bod angen chwilio am welliant i adlewyrchu ysbryd y Papur Gwyn a datganoli a sicrhau yr ymgynghorir â Gweinidogion mewn gweinyddiaethau datganoledig.

Ar Ran 7, sef Dyfrffyrdd Mewndirol, yr oedd y Pwyllgor yn dymuno i'r Mesur gael ei wella fel bod rhagor o bwerau'n cael eu datganoli i'r Cynulliad. Nododd y Gweinidog y byddai'n ymgynghori â'i Gyd-weinidog, y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth, gan mai mater iddo ef oedd hwn yn dechnegol.

Wrth roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar 22 Medi, adroddodd y Gweinidog fod gwelliant y Pwyllgor i Gymal 38, wedi cael ei dderbyn gan DEFRA ac y byddai Llywodraeth y DU yn cynnig y gwelliant i'r Mesur. Ar gais y Pwyllgor am ragor o bwerau mewn perthynas â dyfrffyrdd mewnol (Rhan 7 y Mesur), dywedodd y Gweinidog nad oedd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn erbyn hyn o ran egwyddor a'i bod yn ei ystyried ymhellach. Byddai unrhyw bwerau newydd, fodd bynnag, yn annhebygol o gael eu cynnwys yn y Mesur oherwydd amserlen y Senedd. Sicrhaodd y Gweinidog y Pwyllgor y byddai cyfle deddfu arall yn siŵr o godi i geisio pwerau newydd y cytunir arnynt yn y maes hwn.

Alun Ffred Jones AC
Cadeirydd Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad.